# Diwygiadau i Reoliad a gymathwyd 2019/1793: Rheolaethau Swyddogol a Gynhelir ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel a Fewnforir nad ydynt yn Dod o Anifeiliaid

**Dyddiad lansio: Dydd Iau 14 Mawrth 2024**

**Ymateb erbyn: Dydd Iau 25 Ebrill 2024**

## I bwy y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf?

Pob busnes bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr, awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd, a rhanddeiliaid eraill sydd â buddiant mewn diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae Safonau Bwyd yr Alban wedi lansio ymgynghoriad cyfochrog ar wahân yn yr Alban.

## Pwnc yr ymgynghoriad

Ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i'r rhestrau o fewn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn a gymathwyd 2019/1793 ("Rheoliad 2019/1793") sy'n cymhwyso cynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol ac amodau arbennig sy'n llywodraethu mynediad bwyd a bwyd anifeiliaid penodedig nad ydynt yn dod o anifeiliaid i Brydain Fawr o wledydd penodedig.

## Diben yr ymgynghoriad

Ceisio sylwadau rhanddeiliaid ar ddiwygiadau arfaethedig i'r rhestrau yn Atodiadau i Reoliad 2019/1793.

## Sut i ymateb

Dylid ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy anfon neges â'r teitl 'Ymgynghoriad Rheoliad 2019/1793' i LASupportWales@food.gov.uk (yng Nghymru) neu imported.food@food.gov.uk (yn Lloegr).

## Manylion yr ymgynghoriad

## Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i'r awdurdod priodol adolygu'r rhestrau a nodir yn yr Atodiadau i'r Rheoliad yn rheolaidd er mwyn ystyried gwybodaeth newydd sy'n ymwneud â risgiau a diffyg cydymffurfio. Mae'r awdurdodau priodol ym Mhrydain Fawr yn gyfrifol am ddiweddaru'r ddeddfwriaeth ar fwyd wedi'i fewnforio yn ôl yr angen. Yr awdurdodau priodol yw Gweinidogion Cymru yng Nghymru, yr Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr, a Gweinidogion yr Alban yn yr Alban, a chaiff Gweinidogion Gogledd Iwerddon eu hysbysu'n rheolaidd.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) wedi cynnal adolygiad ar y cyd o'r rhestrau sydd wedi'u cynnwys yn yr Atodiadau i Reoliad 2019/1793. Bydd diweddaru'r rhestrau yn galw am osod Offeryn Statudol ar gyfer pob gwlad ym Mhrydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban).

Cyflawnir yr adolygiad hwn trwy broses dadansoddi risg ar y cyd rhwng yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban fel y gall Gweinidogion wneud penderfyniadau rheoli risg ar sail argymhellion yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban.

Dylid nodi mai dim ond ym Mhrydain Fawr y bydd penderfyniadau mewn perthynas â'r rhestrau o fwyd a bwyd anifeiliaid a fewnforir o drydydd gwledydd sy'n destun rheolaethau manylach yn Rheoliad 2019/1793, a newidiadau iddynt, yn gymwys ym Mhrydain Fawr. Mae'r ASB/FSS yn parhau i sicrhau bod defnyddwyr ar draws y DU yn elwa ar yr un lefel o amddiffyniad cadarn i iechyd y cyhoedd, hyd yn oed lle gallai'r rheolau fod ychydig yn wahanol. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau mynediad dilyffethair Gogledd Iwerddon i farchnad Prydain Fawr, ni fyddai'r un o'r cynigion isod mewn unrhyw fodd yn cyflwyno gwiriadau

neu reolaethau newydd ar nwyddau Gogledd Iwerddon cymwys sy'n symud o ynys Iwerddon i Brydain Fawr.

## Rheolaethau cyfredol

Gellir mewnforio'r rhan fwyaf o fwyd a bwyd anifeiliaid nad ydynt yn dod o anifeiliaid i Brydain Fawr heb reolaethau ychwanegol, uwch. Fodd bynnag, dim ond trwy Safleoedd Rheoli ar y Ffin dynodedig priodol y gall mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid risg uwch nad ydynt yn dod o anifeiliaid o wledydd penodol ddod i mewn i'r DU lle bo rheolaethau swyddogol yn cael eu cynnal, fel archwiliadau dogfennol, adnabod, a ffisegol, gan gynnwys samplu.[1] Ystyr cynnyrch risg uwch yw bwyd neu fwyd anifeiliaid sydd wedi'i nodi naill ai fel risg hysbys neu risg sy'n dod i'r amlwg neu oherwydd bod tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio difrifol a helaeth â deddfwriaeth cadwyn bwyd-amaeth y DU. Gall hyn fod oherwydd presenoldeb pathogenau, halogion, a thocsinau, gan gynnwys afflatocsinau.

Mae Rheoliad 2019/1793 yn nodi, yn ei Atodiadau, restrau o fwyd a bwyd anifeiliaid risg uwch nad ydynt yn dod o anifeiliaid sy'n destun rheolaethau uwch wrth y ffin.

Mae llwythi bwyd a bwyd anifeiliaid a restrir yn Atodiad I i Reoliad 2019/1793 yn destun cynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol mewn Safleoedd Rheoli ar y Ffin wrth gyrraedd Prydain Fawr trwy safleoedd rheoli.

Mae Atodiad II i Reoliad 2019/1793 yn nodi'r rhestr o lwythi bwyd a bwyd anifeiliaid o drydydd gwledydd penodol sy'n destun amodau mynediad arbennig ar gyfer Prydain Fawr oherwydd risg halogiad gan fycotocsinau (gan gynnwys afflatocsinau), gweddillion plaladdwyr, pentacloroffenol a diocsinau, a halogiad microbiolegol.

Mae'r bwyd a'r bwyd anifeiliaid a restrir yn Atodiad IIa wedi'u hatal rhag dod i mewn i Brydain Fawr.

---

[1] Fel y nodir uchod, nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i nwyddau cymwys Gogledd Iwerddon, a fydd yn elwa ar fynediad dilyffethair i farchnad Prydain Fawr (ni waeth a ydynt yn symud i Brydain Fawr yn uniongyrchol, neu'n anuniongyrchol drwy Iwerddon).

## Adolygiad

Roedd yr adolygiad yn dilyn y broses dadansoddi risg a sefydlwyd gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban.
Cafodd bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'u mewnforio o wledydd penodol nad ydynt yn dod o anifeiliaid eu nodi i'w hasesu gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban, a hynny'n seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd. Roedd y nwyddau hyn a fewnforiwyd yn destun asesiad o'r risgiau i iechyd pobl; gwnaed hyn fesul categori risg.

Ystyriwyd canlyniadau'r categoreiddio risg, ynghyd â gwybodaeth berthnasol arall, gan reolwyr risg yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban a swyddogion polisi wrth wneud cynigion ar gyfer argymhellion o ran newidiadau mewn rheolaethau swyddogol. Mae'r holl argymhellion a gynigir wedi'u seilio ar wyddoniaeth a thystiolaeth.

Mae'r holl argymhellion wedi'u datblygu a'u hystyried drwy weithgor arbenigol pedair gwlad, yn unol â'r Fframwaith Cyffredin ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, a'u cynnig gan swyddogion yng Nghymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## Prif argymhellion:

Mae'r gweithgor arbenigol wedi gwneud cyfres o argymhellion ynghylch nwyddau yr ydym argymell newid lefel y rheolaethau swyddogol ar gyfer rhai mathau o fwyd a bwyd anifeiliaid o wledydd penodol. Mae'r argymhellion i'w gweld yn yr adran 'effeithiau' yn y ddogfen hon. Pan fo'r dystiolaeth yn awgrymu nad oes angen mwy o reolaethau swyddogol ar rai nwyddau bellach oherwydd bod y risg wedi'i rheoli'n effeithiol trwy gydymffurfiaeth well, rydym yn argymell y dylai'r nwyddau hynny gael eu tynnu oddi ar y rhestr, tra dylai'r amlder gwirio gynyddu neu leihau ar gyfer rhai nwyddau yn dibynnu ar lefel y risg a berir. Argymhellir addasiadau er mwyn adlewyrchu risgiau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, gan sicrhau bod gan ddefnyddwyr ym Mhrydain Fawr fynediad o hyd at fwyd a fewnforir sy'n ddiogel.

Rydym yn bwriadu cyflwyno'r argymhellion hyn i Weinidogion. Mae diogelwch bwyd yn fater datganoledig, a bydd y penderfyniadau'n cael eu gwneud gan Weinidogion ym mhob un o'r gwledydd datganoledig.

Pan fydd Gweinidogion yn cytuno ar argymhellion, bydd angen is-ddeddfwriaeth ym mhob gwlad i ddiwygio Rheoliad 2019/1793. Y bwriad yw y bydd deddfwriaeth i weithredu canlyniad yr adolygiad hwn yn dod i rym ddiwedd 2024.

## Effeithiau

Mae'r argymhellion arfaethedig yn cynnwys 25 o ddiweddariadau unigol i'r rhestrau sydd wedi'u cynnwys yn Atodiadau I a II. Cânt eu hegluro yn y tabl isod, ac maent wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

- Dylid tynnu 1 grŵp cynnyrch (Cnau daear o Frasil ar gyfer gweddillion plaladdwyr), sy'n cynnwys 7 nwydd ar wahân, o gwmpas y rheolaethau. Rydym wedi bod yn monitro lefelau cydymffurfiaeth y grŵp hwn ers eu rhestru yn yr Atodiadau. Mae data a gafwyd trwy ein System Rhybuddio Cynnar (EWS) a thrwy hysbysiadau ffiniau a hysbysiadau eraill yn dangos bod lefel y risg wedi lleihau yn sylweddol. Ar sail ein hasesiad o'r data, rydym o'r farn nad oes angen rheolaethau uwch mwyach ar y grŵp gan ei fod yn dangos gyda lefel uchel o sicrwydd y byddai tynnu'r rheolaethau hyn yn peri risg ddibwys i iechyd y cyhoedd.

- Dylai 4 nwydd (Gwm Guar (Pentacloroffenol a deuocsinau), Nytmeg ar gyfer Afflatocsinau, Pupurau o'r rhywogaeth *Capsicum* ar gyfer Afflatocsinau a hadau Sesamum ar gyfer gweddillion plaladdwyr oll o India) fod yn destun llai o wiriadau. Wedi i ni gynnal y lefel uchaf o reolaethau uwch ar y nwyddau hyn dros nifer o flynyddoedd, rydym wedi casglu digon o ddata i'n gwneud yn fwyfwy hyderus bod lefel y cydymffurfio yn gwella. Dylai'r cynhyrchion hyn fod yn destun y lefel hon o fonitro nes ein bod wedi'n bodloni bod y risg a berir wedi lleihau ymhellach.

- Dylai 2 nwydd (Te o Tsieina ar gyfer gweddillion plaladdwyr a hadau Sesamum o India ar gyfer Salmonela) fod yn destun mwy o reolaethau uwch, am fod gennym bryderon ynghylch y risg maen nhw'n ei pheri i iechyd y cyhoedd. Mae'r nwyddau hyn wedi bod yn destun monitro a gwyliadwriaeth yn Safleoedd Rheoli ar y Ffin

Prydain Fawr dros sawl blwyddyn. Mae'r wybodaeth a gafwyd o'r rheolaethau hyn, yn ogystal â data o wledydd eraill, yn dangos nad yw lefelau diffyg cydymffurfio'n gwella. Felly, ystyrir bod rheolaethau llymach, sy'n rhoi'r pwyslais ar y wlad sy'n allforio i roi sicrwydd ynghylch y cynnyrch, yn briodol ar hyn o bryd.

- Cyflwyno 15 o nwyddau newydd (Cymysgedd o gnau, Pâst cnau cyll ac olew cnau cyll o Georgia ar gyfer Afflatocsinau; hadau cwmin, hadau cwmin wedi'u gwasgu neu wedi'u malu, dail Fenugreek a ffa Yardlong o India ar gyfer gweddillion plaladdwyr; Basil a Mint o Israel ar gyfer gweddillion plaladdwyr; Mukunuwenna o Sri Lanka ar gyfer gweddillion plaladdwyr; Grawnffrwyth o Dwrci ar gyfer gweddillion plaladdwyr, hadau Sesamum a Tahini a halva o hadau sesame o Dwrci ar gyfer Salmonela; pâst cnau daear o Fadagascar ar gyfer Afflatocsinau; Pâst cnau daear o'r Ariannin ar gyfer Afflatocsinau) y dylent fod yn destun rheolaethau oherwydd pryderon eu bod yn peri risg i iechyd y cyhoedd. Mae'r nwyddau hyn wedi'u nodi trwy EWS yn ogystal â data samplu a gwybodaeth o ffynonellau eraill. Bydd y cynhyrchion yn destun lefel gymesur o fonitro yn Safleoedd Rheoli ar y Ffin Prydain Fawr i gasglu tystiolaeth a fydd yn cael ei defnyddio i ddod i benderfyniad, sef naill ei eu tynnu o'r rheolaethau yn gyfan gwbl neu gynyddu lefel y gwiriadau a gynhelir.

- Bydd 3 nwydd (Cnau Cyll wedi'u paratoi neu wedi'u cadw, gan gynnwys cymysgeddau o Georgia ar gyfer Afflatocsinau); Granadila a Passion Fruit o Colombia ar gyfer gweddillion plaladdwyr a Bananas o Ecuador ar gyfer gweddillion plaladdwyr) sydd eisoes dan reolaeth yn cael codau CN wedi'u diweddaru, gan ymestyn yr ystod o nwyddau sy'n destun gwiriadau ar y ffin.

Mae'r nwyddau a restrir yn Atodiad I i Reoliad 2019/1793 yn cael eu rheoli dros dro er mwyn helpu i bennu a allai fod angen mesurau llymach yn ddiweddarach. O'r herwydd, mae unrhyw effeithiau yn debygol o fod yn rhai byrdymor. Mae'r nwyddau a restrir yn Atodiad II i Reoliad 2019/1793 yn fwy sefydlog eu natur, ond cânt eu cynnwys yn yr adolygiad a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. Unwaith y bydd y lefel risg yn newid, bydd lefel y rheolaeth yn cael ei diwygio. Mae'r penderfyniadau ar y nwyddau a restrir yn yr Atodiadau i Rheoliad 2019/1793 wedi'u seilio ar risg, ac felly maent yn ymwneud â'r wlad tarddiad benodol yn unig. Felly, gall mewnforwyr Prydain Fawr fewnforio o wledydd eraill

ar draws y byd nad yw eu cynhyrchion wedi'u nodi fel rhai 'risg uchel' a lle nad yw rheolaethau mewnforio uwch yn berthnasol.

Mae'n debygol y bydd costau ymgyfarwyddo i awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd mewn perthynas â'r diweddariadau rheolaidd, ac rydym yn disgwyl i'r costau fod yn isel. Gellir adennill costau cynnal rheolaethau swyddogol ar y ffin trwy godi ffioedd a thaliadau. Dim ond trwy Safleoedd Rheolaethau'r Ffin sydd eisoes wedi'u sefydlu ym Mhrydain Fawr y gellir mewnforio nwyddau risg uchel.

Bydd busnesau sy'n dymuno mewnforio cynhyrchion sy'n destun gwiriadau uwch (naill ai oherwydd eu bod wedi'u symud o Atodiad 1 i Atodiad 2 neu eu bod yn ychwanegiadau cwbl newydd i'r naill Atodiad neu'r llall) yn wynebu cost ychwanegol am wneud hynny, gan fod Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd fel arfer yn codi tâl ar fusnesau sy'n mewnforio er mwyn cynnal rheolaethau swyddogol. Mae angen gwiriadau ychwanegol ar gyfer y cynhyrchion a restrir yn Atodiad 2 o gymharu ag Atodiad 1. Fodd bynnag, mae'r taliadau hyn yn gymharol fach a gall busnesau hefyd ddewis mewnforio o wledydd eraill lle nad yw rheolaethau mewnforio'n gymwys, os nad ydynt am ysgwyddo'r taliadau.

Mae disgwyl hefyd i'r effeithiau fod yn fach iawn yng Nghymru. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw Safleoedd Rheoli ar y Ffin yng Nghymru wedi'u dynodi ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel nad ydynt yn dod o anifeiliaid. Felly, ni fydd y costau ymgyfarwyddo sy'n berthnasol yn Lloegr yn berthnasol yng Nghymru.

Prif fantais y newidiadau yw lleihau'r risg i iechyd y cyhoedd, gan fod y rheolaethau wedi'u targedu ac yn seiliedig ar risg. Mae'n anodd iawn rhoi gwerth ariannol ar y fantais hon. Er ei bod yn bosib nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio trwy fonitro a gwaith gwyliadwriaeth, mae'n anodd iawn priodoli unrhyw achosion o glefydau a gludir gan fwyd neu salwch i'r cynhyrchion risg uchel a fewnforir, o ystyried yr amrywiaeth o ffactorau drysu eraill sydd ar waith.

Nodir y bwyd a'r bwyd anifeiliaid a restrir yn yr Atodiadau ar sail y codau o'r Dull Enwi Cyfun a'r is-adran TARIC.

Mae'r diwygiadau arfaethedig wedi'u nodi yn y tabl canlynol:

**Atodiad I**

| ***Gwlad tarddiad*** | ***Bwyd a bwyd anifeiliaid (defnydd bwriadedig)*** | ***Cod CN*** | ***Is-adran TARIC*** | ***Perygl*** | ***Amlder gwiriadau ffisegol a gwiriadau adnabod (%)*** | **Natur y newid** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Brasil (BR) | Cnau daear (pysgnau), mewn plisgyn ***(Bwyd a bwyd anifeiliaid)*** | 1202 41 00 | | Gweddillion plaladdwyr | | Dileu o’r rhestr |
| Brasil (BR) | Cnau daear (pysgnau), heb blisgyn ***(Bwyd a bwyd anifeiliaid)*** | 1202 42 00 | | Gweddillion plaladdwyr | | Dileu o’r rhestr |
| Brasil (BR) | Menyn pysgnau ***(Bwyd a bwyd anifeiliaid)*** | 2008 11 10 | | Gweddillion plaladdwyr | | Dileu o’r rhestr |
| Brasil (BR) | Cnau daear (pysgnau), wedi’u paratoi neu eu cadw fel arall ***(Bwyd a bwyd anifeiliaid)*** | 2008 11 91;<br>2008 11 96;<br>2008 11 98 | | Gweddillion plaladdwyr | | Dileu o’r rhestr |
| Brasil (BR) | Cacen olew a gweddillion solet eraill, boed wedi’u malu neu ar ffurf peledi, sy’n deillio o echdynnu olew cnau daear ***(Bwyd a bwyd anifeiliaid)*** | 2305 00 00 | | Gweddillion plaladdwyr | | Dileu o’r rhestr |
| Brasil (BR) | Blawd cnau daear ***(Bwyd a bwyd anifeiliaid)*** | ex1208 90 00 | 20 | Gweddillion plaladdwyr | | Dileu o’r rhestr |
| Brasil (BR) | Pâst cnau daear ***(Bwyd a bwyd anifeiliaid)*** | ex2007 10 10<br>ex2007 10 99<br>ex2007 99 39 | 80<br>50<br>07; 08 | Gweddillion plaladdwyr | | Dileu o’r rhestr |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tsieina (CN) | Te, â blas neu heb flas.<br>***(Bwyd*)** | 0902 | | Gweddillion plaladdwyr | | Tynnu o Atodiad I. Gosod yn Atodiad II. Wedi'u hychwanegu at y tabl yn Atodiad II gyda mwy o fanylion. |
| Colombia (CO) | Granadila *(Passiflora ligularis)* a Passion Fruit *(Passiflora edulis)*<br>***(Bwyd)*** | ex0810 90 20 | 40; 50 | Gweddillion plaladdwyr | 10% | Cod CN wedi'i ddiweddaru o dan y rhestr bresennol i adlewyrchu'r diweddariadau i wefan y Tariff. |
| Ecuador (EC) | Bananas<br>***(Bwyd – ffres neu sych)*** | 0803 90 | | Gweddillion plaladdwyr | 5% | Cod CN wedi'i ddiweddaru o dan y rhestr bresennol i ymestyn cwmpas y rheolaethau ac adlewyrchu'r diweddariadau i wefan y Tariff. |
| Georgia (GE) | Cymysgeddau o gnau neu ffrwythau sych sy'n cynnwys cnau cyll<br>***(Bwyd)*** | ex0813 50 39<br>ex0813 50 91<br>ex0813 50 99 | 70<br>70<br>70 | Afflatocsinau | 20% | Cynnyrch newydd o dan y rhestr bresennol. |
| Georgia (GE) | Pâst cnau cyll<br>***(Bwyd)*** | ex2007 10 10<br>ex2007 10 99<br>ex2007 99 39<br>ex2007 99 39<br>ex2007 99 50<br>ex2007 99 97 | 70<br>40<br>05<br>06<br>33<br>23 | Afflatocsinau | 20% | Cynnyrch newydd o dan y rhestr bresennol. |
| Georgia (GE) | Cnau cyll, wedi'u paratoi neu eu cadw fel arall, gan gynnwys cymysgeddau<br>***(Bwyd)*** | ex2008 19 12<br>ex2008 19 92<br>ex2008 97 12<br>ex2008 97 14<br>ex2008 97 16<br>ex2008 97 18<br>ex2008 97 32<br>ex2008 97 34<br>ex2008 97 36 | 30<br>30<br>15<br>15<br>15<br>15<br>15<br>15<br>15 | Afflatocsinau | 20% | Ychwanegwyd codau CN ychwanegol o dan y rhestriad presennol i ymestyn cwmpas y rheolaethau. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ex2008 97 38<br>ex2008 97 51<br>ex2008 97 59<br>ex2008 97 72<br>ex2008 97 74<br>ex2008 97 76<br>ex2008 97 78<br>ex2008 97 92<br>ex2008 97 93<br>ex2008 97 94<br>ex2008 97 96<br>ex2008 97 97<br>ex2008 97 98 | 15<br>15<br>15<br>15<br>15<br>15<br>15<br>15<br>15<br>15<br>15<br>15<br>15 | | | |
| Georgia (GE) | Olew cnau cyll<br>***(Bwyd)*** | ex1515 90 99 | 20 | Afflatocsinau | 20% | Cynnyrch newydd o dan y rhestr bresennol. |
| India (IN) | Hadau cwmin<br>**(Bwyd)** | 0909 31 00 | | Gweddillion plaladdwyr | 10% | Ychwanegiad newydd i'r Atodiad. |
| India (IN) | Hadau cwmin wedi'u gwasgu neu wedi'u malu.<br>***(Bwyd)*** | ex0909 32 00 | | Gweddillion plaladdwyr | 10% | Ychwanegiad newydd i'r Atodiad. |
| India (IN) | Dail ffenigrig<br>**(Bwyd)** | ex0910 99 10 | | Gweddillion plaladdwyr | 10% | Ychwanegiad newydd i'r Atodiad. |
| India (IN) | Ffa Yardlong<br>*(Vigna unguiculata subsp. sesquipedalis)*<br>***(Bwyd – llysiau ffres, wedi'u hoeri neu wedi'u rhewi)*** | ex0708 20 00<br>ex0710 22 00 | 10<br>10 | Gweddillion plaladdwyr | 20% | Ychwanegiad newydd i'r Atodiad. |
| India (IN) | Gwm Guar<br>***(Bwyd a bwyd anifeiliaid)*** | ex1302 32 90 | | Pentacloroffenol a deuocsinau[(4)]<br>[(4)] | 20% | Mewnosod yn Atodiad I. Nodyn yn y tabl nesaf i'w ddileu o Atodiad II. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| India (IN) | Nytmeg<br>*(Myristica fragrans)*<br>***(Bwyd – sbeisys sych)*** | 0908 11 00<br>0908 12 00 | | Afflatocsinau | 50% | Mewnosod yn Atodiad I. Nodyn yn y tabl nesaf i'w ddileu o Atodiad II. |
| India (IN) | Pupurau o'r rhywogaeth Capsicum (rhai melys neu rai nad ydynt yn felys)<br>***(Bwyd – wedi'i sychu, wedi'i rostio, wedi'i wasgu neu wedi'i falu)*** | 0904 21 10<br>ex0904 22 00<br>ex0904 22 00<br>ex0904 21 90<br>ex2005 99 10<br>ex2005 99 10<br>ex2005 99 80 | <br>11<br>19<br>20<br>10<br>90<br>94 | Afflatocsinau | 20% | Mewnosod yn Atodiad I. Nodyn yn y tabl nesaf i'w ddileu o Atodiad II. |
| Israel (IL) | Basil ('holy', melys)<br>***(Bwyd – perlysiau ffres neu wedi'u hoeri)*** | ex1211 90 86 | 20 | Gweddillion plaladdwyr | 10% | Ychwanegiad newydd i'r Atodiad. |
| Israel (IL) | Mintys<br>***(Bwyd – perlysiau ffres neu wedi'u hoeri)*** | ex1211 90 86 | 30 | Gweddillion plaladdwyr | 10% | Ychwanegiad newydd i'r Atodiad. |
| Madagascar (MG) | Pâst cnau daear<br>***(Bwyd a bwyd anifeiliaid)*** | ex2007 10 10<br>ex2007 10 99<br>ex2007 99 39 | 80<br>50<br>07; 08 | Afflatocsinau | 50% | Ychwanegiad newydd i'r Atodiad. |
| Sri Lanka (LK) | Mukunuwenna (Alternanthera sessilis)<br>***(Bwyd)*** | ex0709 99 90 | 35 | Gweddillion plaladdwyr | 10% | Ychwanegiad newydd i'r Atodiad. |
| Twrci (TR) | Grawnffrwyth<br>***(Bwyd)*** | 0805 40 00 | | Gweddillion plaladdwyr | 10% | Ychwanegiad newydd i'r Atodiad. |
| Twrci (TR) | Hadau Sesamum<br>***(Bwyd)*** | 1207 40 90 | | Salmonela | 10% | Ychwanegiad newydd i'r Atodiad. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Twrci (TR) | Tahini a halva o hadau Sesamum<br><br>***(Bwyd)*** | ex1704 90 99<br>ex1806 20 95<br>ex1806 90 50<br>ex1806 90 60<br>ex2008 19 19<br>ex2008 19 99 | 12, 92<br>13, 93<br>10<br>11, 91<br>40<br>40 | Salmonela | 10% | Ychwanegiad newydd i'r Atodiad. |

**Atodiad II**

| ***Gwlad tarddiad*** | ***Bwyd a bwyd anifeiliaid (defnydd bwriadedig)*** | ***Cod CN*** | ***Is-adran TARIC*** | ***Perygl*** | ***Amlder gwiriadau ffisegol a gwiriadau adnabod (%)*** | **Natur y newid** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Ariannin (AR) | Pâst cnau daear ***(Bwyd a bwyd Anifeiliaid)*** | ex2007 10 10<br>ex2007 10 99<br>ex2007 99 39 | 80<br>50<br>07; 08 | Afflatocsinau | 5% | Ychwanegiad newydd i'r Atodiad. |
| Tsieina (CN) | Te, â blas neu heb flas. ***(Bwyd)*** | ex0902 | | Gweddillion plaladdwyr | 5% | Mewnosod yn Atodiad II ar 5% a dileu o Atodiad I. |
| India (IN) | Gwm Guar<br>***(Bwyd a bwyd anifeiliaid)*** | ex1302 32 90 | | Pentacloroffenol a deuocsinau[(4) (4)] | | Dileu o Atodiad II. Mewnosod yn Atodiad I. Wedi'i ychwanegu at y tabl yn Atodiad I gyda mwy o fanylion. |
| India (IN) | Nytmeg<br>*(Myristica fragrans)*<br>***(Bwyd – sbeisys sych)*** | 0908 11 00<br>0908 12 00 | | Afflatocsinau | | Dileu o Atodiad II. Mewnosod yn Atodiad I. Wedi'i ychwanegu at y tabl yn Atodiad I gyda mwy o fanylion. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| India (IN) | Pupurau o'r rhywogaeth Capsicum (rhai melys neu rai nad ydynt yn felys) ***(Bwyd – wedi'i sychu, wedi'i rostio, wedi'i wasgu neu wedi'i falu)*** | 0904 21 10<br>ex0904 22 00<br>ex0904 22 00<br>ex0904 21 90<br>ex2005 99 10<br>ex2005 99 10<br>ex2005 99 80 | <br>11<br>19<br>20<br>10<br>90<br>94 | Afflatocsinau | | Dileu o Atodiad **II**. Mewnosod yn Atodiad **I**. Wedi'i ychwanegu at y tabl yn Atodiad **I** gyda mwy o fanylion. |
| India (IN) | Hadau Sesamum **(Bwyd)** | 1207 40 90 | | Salmonela | 30% | Cynyddu amlder gwiriadau ffisegol a gwiriadau adnabod yn Atodiad **II** o 20% i 30%. |
| | | | | Gweddillion plaladdwyr | 30% | Lleihau amlder gwiriadau ffisegol a gwiriadau adnabod yn Atodiad **II** o 50% i 30%. |

- **Nodiadau:** Nodir y cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a restrir yn Atodiadau I, **II** a **II**a o'r rheolaethau swyddogol ar sail y codau o'r Dull Enwi Cyfun a'r is-adran TARIC a geir yn yr Atodiadau. Mae'r gwiriadau adnabod a'r gwiriadau ffisegol ar fwyd a bwyd anifeiliaid, gan gynnwys gwaith samplu a dadansoddi yn y labordy, a restrir yn yr Atodiadau i'w cynnal ar amlder a nodir yn yr Atodiadau.
- Mae llwythi bwyd a bwyd anifeiliaid a restrir yn Atodiad **I** i Reoliad 2019/1793 yn destun cynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau wrth gyrraedd Prydain Fawr ac mewn mannau rheoli. Mae Atodiad **II** i Reoliad 2019/1793 yn nodi'r rhestr o lwythi bwyd a bwyd anifeiliaid o drydydd gwledydd penodol sy'n destun amodau mynediad arbennig ar gyfer Prydain Fawr oherwydd risg halogiad gan fycotocsinau, gan gynnwys afflatocsinau, gweddillion plaladdwyr, pentacloroffenol a diocsinau, ac oherwydd halogiad microbiolegol. Mae'r bwyd a'r bwyd anifeiliaid a restrir yn Atodiad **II**a wedi'u hatal rhag dod i mewn i Brydain Fawr.

## Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori

Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor tan ddydd Iau 25 Ebrill 2024. Unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, cynhelir adolygiad o'r canlyniadau a chyhoeddir adroddiad ymgynghori, gyda'n hargymhellion terfynol i'r Gweinidogion priodol.

**Y cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn:**

1. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr argymhellion o ran gwlad tarddiad/nwyddau a gynigir i ddiweddaru'r rhestrau?

2. A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effeithiau y gallai'r diweddariadau arfaethedig i nwyddau eu cael sydd heb eu nodi yn yr ymgynghoriad hwn?

## Ymatebion

Bydd angen i ymatebion ddod i law erbyn 5pm ddydd Iau 25 Ebrill 2024. Yn eich ymateb, nodwch a ydych chi'n ymateb fel unigolyn preifat neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli).

**Anfonwch eich ymateb,** gyda'r teitl 'Ymgynghoriad Rheoliad 2019/1793' i **LASupportWales@food.gov.uk** (Cymru) neu **imported.food@food.gov.uk** (Lloegr).

I gael gwybodaeth am sut mae'r ASB yn trin eich data personol, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer Ymgynghoriadau, sydd i'w gael yn www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/hysbysiad-preifatrwydd-ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Os bydd angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori Llywodraeth y DU.

Ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

David Lowe, Pennaeth Strategaeth Mewnforion, yr ASB yn Lloegr

Kerys James-Palmer, Pennaeth Strategaeth Ddeddfwriaethol, yr ASB yng Nghymru

## Atodiad A: Rhestr o bartïon â buddiant

Awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr

Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd yng Nghymru a Lloegr

Cymdeithas Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd (APHA)

Grŵp Porthladdoedd Mawr y DU

Gweithredwyr Meysydd Awyr y DU

Cynrychiolwyr Cynnyrch Ffres

Cynrychiolwyr Diwydiant Lletygarwch y DU

Cynrychiolwyr Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Cynrychiolwyr Mewnforwyr Bwyd Prydain

Sefydliadau pecynnu

Archfarchnadoedd y DU

Cynrychiolwyr siopau cyfleustra

Consortiwm Manwerthu Prydain

Which?